Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol
Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan
Regional Safeguarding Children Board

Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol
Caerdydd a'r Fro
BDORhCaF
C&VRSAB
Cardiff & Vale of Glamorgan
Regional Safeguarding Adults Board

BYRDDAU DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

# Honiadau Diogelu/ Pryderon am Ymarferwyr a'r Rhai mewn Swydd â Chyfrifoldeb dros Rywun Protocol



**Cynnwys** **Rhif Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Cyflwyniad | **2** |
| **2.** | Diben | **2** |
| **3.** | Rolau o Fewn y Protocol hwn | **4** |
| **4.** | Pryd i ddefnyddio'r Protocol hwn | **4** |
| **5.** | Gwneud Adroddiad (atgyfeirio) | **5** |
| **6.** | Y Drafodaeth ar Strategaeth Broffesiynol | **8** |
| **7.** | Cyfarfodydd Strategaeth Ymarferwyr | **9** |
| **8.** | Pwy i'w Wahodd i'r Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr | **10** |
| **9.** | Rhoi gwybod i'r unigolyn | **11** |
| **10.** | Rhoi gwybod i rieni/gofalwyr, plant, oedolion mewn perygl neu eu Cynrychiolwyr | **12** |
| **11.** | Ymddiswyddiadau a 'chytundebau setliad' | **12** |
| **12.** | Cwblhau'r Broses | **12** |
| **13.** | Yn Dilyn Cwblhau'r Broses | **13** |
| **14.** | Materion Traws-Ffiniol | **13** |
| **15.** | Cyfrinachedd a Chofnod o Gyfarfod Strategaeth Ymarferwyr | **14** |
| **16.** | Datrys Gwahaniaethau Rhwng Ymarferwyr | **15** |

**Atodiad 1:** Map Proses Pryderon Ymarferwyr **16**

**Atodiad 2:** Cymorth Cof cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr ar gyfer yr Agenda **17**

**Atodiad 3:** Ffurflen Adrodd Pryderon Ymarferydd/Swydd o Ymddiriedaeth **19**

**Atodiad 4:** Canllawiau a Gwybodaeth i bawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl pan fydd pryder diogelu wedi'i wneud yn eich erbyn **21**

**Atodiad 5:** Canllawiau a Gwybodaeth i Ofalwyr Maeth, Gofalwyr sy'n Berthnasau a Gofalwyr Lleoliadau Oedolion pan fydd honiad wedi'i wneud yn eich erbyn **25**

**Atodiad 6:** Canllaw i rieni/gofalwyr plentyn neu berson ifanc sydd wedi mynegi pryder neu wedi gwneud honiad o gamdriniaeth yn erbyn oedolyn sy'n gweithio, neu'n gwirfoddoli, gyda phlant a phobl ifanc. **29**


Gyda diolch i Fwrdd Diogelu Gwent

DRAFT

## 1) Cyflwyniad

Mae'r protocol hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu ynghylch y rhai y mae eu gwaith, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gyswllt â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg. Mae hefyd yn cynnwys unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu dros blant neu unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt ac y mae eu gwaith cyflogedig neu eu gwaith gwirfoddol yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg.

Mae'r protocol hwn yn cefnogi gweithdrefnau disgyblu mewnol asiantaethau eu hunain ac yn rhoi canllawiau ar ymdrin yn briodol ag unrhyw bryderon neu honiadau o gam-drin neu esgeuluso gan Ymarferwyr ac i sicrhau yr ymdrinnir â phob honiad o gam-drin a wneir yn erbyn staff neu wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl mewn ffordd deg, cyson ac amserol.

Y prif ffactor i'w ystyried wrth gymhwyso'r protocol hwn yw a yw'r unigolyn sy'n destun yr honiad neu'r pryder mewn sefyllfa o ymddiriedaeth; mae hyn lle y mae aelod o staff/ gwirfoddolwr mewn sefyllfa o bŵer neu ddylanwad dros blentyn neu oedolyn, yn rhinwedd y gwaith neu natur y gweithgaredd sy'n cael ei wneud.

Mae'r Rolau yn y protocol hwn yn seiliedig ar y rhai a nodwyd yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru. Cydnabyddir y bydd y gweithdrefnau hyn yn defnyddio iaith wahanol mewn adrannau gwahanol. Ar gyfer staff sy'n gweithio yng Nghaerdydd a'r Fro dyma'r protocol a gymeradwyir gan Fyrddau Diogelu Caerdydd a'r Fro.

## 2) Diben

Mae'r protocol hwn yn nodi'r broses y dylai asiantaethau ei dilyn wrth ymateb i honiadau yn erbyn oedolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r protocol yn cynnwys y trothwyon ar gyfer gweithredu a chanllawiau ynghylch amserlenni priodol ar gyfer ymchwilio.

Mae cyfeiriadau at blant yn y ddogfen hon yn golygu unrhyw blentyn sydd heb gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Mae'r diffiniad o Blentyn mewn Perygl yn dilyn y diffiniad a roddir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

- Mae'n cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu'n cael niwed o fath arall, neu mae perygl i hynny ddigwydd
- Mae angen gofal a chymorth arno (os yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio)

Mae cyfeiriad at Oedolion mewn Perygl yn cynnwys oedolion dros 18 mlwydd oed ac yn dilyn y diffiniad a roddir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

- Yn profi neu mewn perygl o brofi cam-drin neu esgeuluso,
- Mae angen gofal a chymorth arno (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio)

- Nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu fod mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Egwyddorion Trosgynnol

- Mae plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag unigolion sydd o bosibl yn beryglus yn y lleoliad y maen nhw'n gweithio neu'n gwirfoddoli ynddo
- Sicrhau yr ymdrinnir â honiadau a phryderon diogelu mewn modd teg, cyson ac amserol ac yn unol â chanllawiau statudol
- Sicrhau bod cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor priodol ar gael ar gyfer pawb yr effeithir arnynt yn ystod y broses hon
- Sicrhau bod unigolion nad ydynt yn addas i weithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl yn cael eu hatal rhag gwneud hynny drwy roi gwybod i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chyrff Proffesiynol perthnasol eraill
- Dylai Awdurdodau Lleol benodi Uwch-Reolwr fel y SDD sydd â chyfrifoldeb dros weithredu o dan Ganllawiau Diogelu Cymru: Honiadau Pryderon/ Diogelu am Ymarferwyr a'r Rhai sydd mewn Swyddi Gydag Ymddiriedaeth a'r canllaw ymarfer ategol hwn.

At ddibenion y canllaw ymarfer hwn, mae diffiniad 'gwaith' yn cynnwys y canlynol:

- Y rhai hynny sydd yn gyflogedig, gan gynnwys staff dros dro, achlysurol, staff asiantaeth a'r rhai hynny a gyflogir fel Cynorthwywyr Personol dan y cynllun taliadau uniongyrchol
- Unigolion sy'n gwneud gwaith gwirfoddol di-dâl
- Unigolion sy'n hunangyflogedig ac sy'n gweithio'n uniongyrchol, neu sydd wedi'u contractio i weithio, i ddarparu gwasanaethau i blant ac oedolion mewn perygl
- Swyddogion Etholedig

Mae'r protocol hwn wedi'i danategu gan y ddeddfwriaeth ganlynol a dylid ei ddarllen ar y cyd â:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014 - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 - Delio ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant mewn Perygl
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 - Delio ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion mewn Perygl
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/
- Cadw dysgwyr yn ddiogel: rheoli honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a rhai eraill sy'n ymwneud â gwasanaethau addysg yng Nghymru 2015 (i'w ddiweddaru) https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/keeping-learners-safe-the-role-of-local-authorities-governing-bodies-and-proprietors-of-independent-schools-under-the-education-act-2002.pdf

DRAFT

**3) Rolau yn yr Arweiniad hwn**

Yn y protocol hwn mae rolau penodol:

- **LADO -** Mae Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) wedi bod yn deitl a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r cyfrifoldebau hyn ac yn derm a ddefnyddir yng Nghweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) Bydd gan awdurdodau lleol uwch-reolwr a nodir sy'n gyfrifol am ddiogelu ac sy'n atebol fel un sy'n gyfrifol am honiadau yn erbyn Ymarferwyr a'r rhai mewn sefyllfeydd lle yr ymddiriedir ynddynt (agweddau gweithredol, mae'n bosibl y caiff rôl y LADO ei dirprwyo i'r Swyddog Diogelu Dynodedig (SDD))

- Swyddog Diogelu Dynodedig - **SDD** Mae'r Swyddog Diogelu Dynodedig yn gyfrifol am reoli pob honiad a wneir yn erbyn staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl ei ardal.

Bydd gan bob Awdurdod Lleol Swyddog Diogelu Dynodedig ac felly hefyd pob cyflogwr. Bydd SDD yr Awdurdod Lleol yn cadeirio'r cyfarfodydd, fodd bynnag bydd SDD y cyflogwr yn cefnogi gyda llawer o gydlynu'r broses hon.

Os bydd gan unrhyw gyflogwr bryderon am ei gyflogai, mae'n rhaid iddo siarad â'r person yn ei sefydliad sy'n gyfrifol am ddiogelu.

**4) Pryd i ddefnyddio'r protocol hwn**

Wrth ystyried cymhwyso'n protocol hwn, dylid ystyried nifer o ffactorau. Gellid ystyried rhai pryderon fel ymarfer gwael gan ymarferwyr ac mae'n bosibl y bydd yn fwy priodol i brosesau mewnol asiantaethau eu hunain ymdrin â nhw neu drwy ddarparu cyngor, arweiniad neu hyfforddiant priodol.

Os yw asiantaethau'n penderfynu peidio â chymryd camau pellach, dylent gofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn drwy eu dulliau cofnodi mewnol. Mae'n hanfodol bod y cofnodion hyn yn cael eu cadw rhag ofn bod pryder pellach neu fod pryder yn codi eto.

Os yw asiantaethau'n aneglur ynglyn â pha gamau i'w cymryd, dylent gael y cyngor priodol gan SDD yr Awdurdod Lleol. Mae'r SDD yn gyfrifol am reoli pob honiad a wneir yn erbyn staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl yn ardal y Cyngor.

Mae rheoli achosion o dan y gweithdrefnau hyn yn berthnasol i amrywiaeth ehangach o honiadau na'r rhai y mae achos rhesymol dros gredu bod y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl yn dioddef niwed, neu'n debygol o ddioddef niwed. Mae hefyd yn berthnasol i bryderon a allai awgrymu nad yw person yn addas i barhau i weithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl yn ei swydd bresennol neu mewn unrhyw swydd. Dylid ei ddefnyddio ymhob achos lle honnir bod person sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl:

- Wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn neu oedolyn mewn perygl, neu y gallai fod wedi gwneud hynny
- O bosibl wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu oedolyn mewn perygl neu sydd ag effaith uniongyrchol ar y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl

- Wedi ymddwyn tuag at y plentyn, plant neu oedolion mewn perygl mewn ffordd sy'n awgrymu ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion ill dau.

Mae'n gallu bod yn anodd penderfynu beth all fod yn y categori "anaddas i weithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl". Dylai'r cyflogwr ystyried a yw testun yr honiad neu bryder:

- Wedi bod yn destun camau cyfreithiol sy'n awgrymu perygl o niwed i blentyn neu oedolyn mewn perygl
- Wedi achosi niwed neu niwed posibl i'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl a bod perygl yn yr amgylchedd gwaith, gwirfoddoli neu ofalu
- Wedi mynd yn groes neu'n parhau i fynd yn groes i Bolisi a Gweithdrefnau Diogelu'r asiantaeth
- Wedi methu deall neu gydymffurfio â'r angen am ffiniau personol a phroffesiynol eglur yn y gweithle
- Wedi ymddwyn yn ei fywyd personol mewn ffordd a allai roi plant ac oedolion mewn perygl o niwed
- Wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi tanseilio'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddo yn rhinwedd ei swydd
- Plant sy'n destun Gweithdrefnau Amddiffyn Plant
- Yn meddu ar gyfrifoldebau gofalu am oedolyn sy'n destun Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion

Hefyd gellir defnyddio'r protocol hwn:

- Os bydd unrhyw bryderon am ymddygiad y person tuag at blant nad yw'n gysylltiedig â'i gyflogaeth neu waith gwirfoddol, a bu argymhelliad gan drafodaeth strategaeth y dylid rhoi ystyriaeth i'r risg a achosir i blant mae'n gweithio gyda nhw, neu
- Pan wneir honiad am gam-drin a ddigwyddodd beth amser yn ôl ac mae'r person a gyhuddir yn gweithio o hyd o bosibl, neu mewn cysylltiad â phlant neu oedolion mewn perygl.
- Mae pryderon sy'n perthyn i ymddygiad, boed yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'i waith neu ei fywyd personol, ymddygiad ymarferydd

**5) Gwneud Adroddiad (atgyfeirio)**

<u>Camau cychwynnol gan berson sy'n derbyn neu'n nodi honiad neu bryder</u>

Dylai'r person sy'n derbyn honiad neu bryder am y tro cyntaf, drin y mater o ddifrif a chadw meddwl agored.

**Ni ddylai:**

- Ymchwilio na gofyn cwestiynau arweiniol
- Rhagdybio neu gynnig esboniadau amgen
- Addo cyfrinachedd – dylai'r person/personau gael eu cynghori y bydd y pryder yn cael ei rannu ar sail 'angen i wybod'

DRAFT

**Dylai:**

- Wneud cofnod ysgrifenedig o'r wybodaeth (gan ddefnyddio lle bo hynny'n bosibl, geiriau'r plentyn/oedolyn ei hun), gan gynnwys yr amser, dyddiad a'r lleoliad lle digwyddodd y digwyddiad honedig, beth gafodd ei ddweud ac a oedd unrhyw un arall yn bresennol
- Llofnodi a rhoi dyddiad ar y cofnod ysgrifenedig
- Adrodd am y mater ar unwaith i'r Person Dynodedig (o fewn ei asiantaeth), neu ddirprwy yn ei absenoldeb
- Os mai'r Person Dynodedig yw testun yr honiad, dylai'r wybodaeth gael ei rhoi i Reolwr Uwch

**Mae'n rhaid nodi bod rhai honiadau mor ddifrifol fel y dylid eu cyfeirio'n syth at yr heddlu a/neu Wasanaethau Plant/Oedolion.**
***Ni fwriedir o gwbl i Honiadau/Pryderon Diogelu am Ymarferwyr a'r Rhai sydd mewn Swyddi lle yr Ymddiriedir ynddynt a'r protocol ategol hwn rwystro'r gofyniad am ymatebion brys neu ar unwaith i amgylchiadau sydd yn amlwg yn ddifrifol, er y disgwylir y rhoddir gwybod i'r SDD am ddigwyddiadau o'r fath cyn gynted â phosibl ac ymhob achos o fewn 24 awr ar y mwyaf ar ôl i'r pryder godi (os diwrnod gwaith nesaf - os yw allan o oriau)* (Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019).**

Bydd unrhyw berson sydd â phryder sy'n dod o fewn cwmpas y ddogfen hon yn cyfeirio ei bryderon trwy gyflwyno ffurflen adrodd (atgyfeirio) i'r ardal awdurdod lleol perthnasol. Dylai'r person sy'n adrodd ei gwneud yn gwbl eglur bod hyn yn bryder mewn perthynas â honiad yn erbyn ymarferydd, gwirfoddolwr neu ofalwr a lle bo'n bosibl, dylai anfon dogfennaeth – fel yr asesiad risg - yn dangos yn eglur pa gamau diogelu a wnaed er mwyn amddiffyn unrhyw blant ac oedolion mewn perygl.

Mewn achosion lle mae plentyn neu oedolyn mewn perygl y gellir ei adnabod sydd wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, caiff Gweithdrefnau Amddiffyn Plant/Amddiffyn Oedolion eu gweithredu a'u dilyn ochr yn ochr â'r broses a amlinellir yn yr arweiniad arfer hwn. Os nad oes plentyn neu oedolyn y gellir ei adnabod mewn perygl, a bod yr ymarferydd yn bodloni'r meini prawf yn adran 3 yna gelwir ar y polisi hwn o hyd.

Mewn achosion lle mae modd adnabod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl sydd efallai wedi mynegi pryder neu sydd wedi cael ei gam-drin o bosibl, bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud asesiad/ymholiad cymesur yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n rhaid bwydo canlyniad yr asesiad hwn yn ôl i'r SDD.

Efallai bydd angenda i'r cyflogwr/mudiad gwirfoddol neu gorff proffesiynol ystyried gwahardd y cyflogai heb ragfarn, neu roi cymorth neu gyfyngiadau yn eu lle i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Bydd hyn hefyd yn diogelu'r cyflogai yn erbyn cyhuddiadau o ymyrryd â'r ymholiadau ac fel modd o ddiogelu'r sefydliad.

*'Os nad yw'r honiad wedi dod o'r tu mewn i sefydliad y cyflogai ac wedi cael ei gyfeirio felly, yna dylai'r heddlu a/neu'r Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion ystyried dweud wrth y SDD*

*o fewn yr asiantaeth gyflogi bod honiad wedi cael ei wneud yn erbyn aelod o'u staff a bod angen ymchwiliadau ffurfiol'.* (Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019).

Dylai unrhyw un sy'n codi pryder diogelu gael ei drin o ddifrif bob amser.

Dylai unrhyw berson sydd â phryder:

- Wneud yr adroddiad (atgyfeiriad) yn unol â'r canllawiau uchod
- Cael cyngor a chymorth gan ei reolwr llinell
- Gwneud cofnod o'r pryderon ac unrhyw gamau a gymerwyd a chan bwy, yn unol â pholisi eu hasiantaeth Dylai hyn gynnwys y rhesymeg dros unrhyw benderfyniadau a wnaed
- Cwblhau asesiad risg priodol i sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu hamddiffyn
- Os yw'r person yn ofalwr maeth neu'n ofalwr mewn lleoliad i oedolion dylid ystyried yr angen am drefniadau gofalu diogel ar gyfer unrhyw blant neu oedolion o fewn ei ofal
- Os yw'r person yn gweithio o fewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol dylid ystyried sicrhau bod mesurau amddiffynnol yn cael eu gweithredu yng nghyswllt unrhyw blant neu oedolion eraill sydd mewn perygl.
- Mae'n rhaid i'r cyflogwr geisio cyngor gan yr Heddlu a/neu SDD yr Awdurdod Lleol ynglŷn â faint o wybodaeth y gellir ei datgelu i destun y pryder.
- Dylai'r cyflogwr gynnig cymorth lles i'r sawl y mae'r pryder amdano

Mae rôl y SDD sydd â chyfrifoldeb dros reoli achosion unigol yn cynnwys:

- Cadeirio Cyfarfodydd strategaeth Ymarferwyr
- Cymryd rhan mewn rheoli a goruchwylio achosion unigol
- Rhoi cyngor ac arweiniad i gyflogwyr ac i sefydliadau gwirfoddol
- Cysylltu â'r Heddlu ac asiantaethau eraill
- Monitro cynnydd achosion er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â nhw o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt
- Sicrhau proses gyson a chadarn ar gyfer pob oedolyn sy'n gweithio gyda phlant a phobl eraill y gwneir honiadau yn eu herbyn
- Cynnal cronfeydd data gwybodaeth mewn perthynas â'r holl honiadau
- Cynhyrchu adroddiadau ansoddol a meintiol ar gyfer C&VRSCBand/ neu C&VRSABLiaising yn ôl yr angen gyda chadeiryddion cyfarfodydd strategaeth neu fynychu/ cadeirio trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth
- Cyfrannu at raglenni hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o C&VRSCB a C&VRSAB ar draws y gweithlu
- Trafod gydag Uwch Reolwyr y posibilrwydd o atgyfeirio at y corff rheoleiddio priodol
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol ac amserol ag unigolion a theuluoedd (lle y bo'n briodol) yr effeithir arnynt drwy'r broses ddiogelu, gan gynnwys cyfeirio at eiriolaeth a chymorth ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt gan ddigwyddiadau o fewn cyd-destun darparu gwasanaethau.

DRAFT

Efallai bydd angen i'r cyflogwr/sefydliad neu gorff proffesiynol ystyried gwahardd y cyflogai heb ragfarn, neu roi cymorth neu gyfyngiadau yn eu lle i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Bydd hyn hefyd yn diogelu'r cyflogai yn erbyn cyhuddiadau o ymyrryd â'r ymholiadau ac fel modd o ddiogelu'r sefydliad.

Dylai unrhyw un sy'n codi pryder diogelu gael ei drin o ddifrif bob amser.

Dylai unrhyw berson sydd â phryder:

- Wneud yr atgyfeiriad yn ôl y canllawiau uchod
- Cael cyngor a chymorth gan eu rheolwr llinell
- Gwneud cofnod o'r pryderon ac unrhyw gamau a gymerwyd a chan bwy, yn unol â pholisi eu hasiantaeth Dylai hyn gynnwys y rhesymeg dros unrhyw benderfyniadau a wnaed
- Cwblhau asesiad risg priodol i sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu hamddiffyn
- Os yw'r person yn ofalwr maeth neu'n ofalwr mewn lleoliad i oedolion mae'n rhaid ystyried yr angen am drefniadau gofalu diogel ar gyfer unrhyw blant neu oedolion sydd mewn perygl o fewn ei ofal
- Os yw'r person yn gweithio o fewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol mae'n rhaid ystyried sicrhau bod mesurau amddiffynnol yn cael eu gweithredu yng nghyswllt unrhyw blant neu oedolion eraill sydd mewn perygl.
- Mae'n rhaid i'r cyflogwr geisio cyngor gan yr Heddlu a/neu SDD yr Awdurdod Lleol ynglŷn â faint o wybodaeth y gellir ei datgelu i destun y pryder.
- Dylai'r cyflogwr ddarparu cymorth lles i'r sawl y mae'r pryder amdano

**6) Trafodaeth Strategaeth Ymarferwyr**

Caiff y Drafodaeth Strategaeth gychwynnol ei chydlynu a'i hwyluso gan y SDD os bydd mesurau diogelu eraill ar gyfer plant neu oedolion sydd mewn perygl yn cael eu hystyried.

Bydd y Drafodaeth Strategaeth Ymarferwyr bob amser yn digwydd gyda'r Heddlu ac unrhyw asiantaethau/partneriaid priodol eraill a'r cyflogwr. Mewn achosion lle y mae'r person wedi'i gyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe neu Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Tîm Diogelu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd neu Dîm Diogelu Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn rhan o'r Drafodaeth Strategaeth honno. Fel rhan o'r broses hon, bydd Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion yn ystyried rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac unrhyw gyrff proffesiynol perthnasol fel sy'n briodol. Dylent gael eu gwahodd i gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod / trafodaeth ar strategaeth sy'n dilyn.

Mae ffocws y Drafodaeth Strategaeth fel a ganlyn:

- Pa un a yw'r mater yn bodloni'r trothwy ar gyfer symud ymlaen at Gyfarfod ar Strategaeth Broffesiynol ffurfiol
- Adnabod unrhyw weithgareddau neu gyfrifoldebau gofalu ar gyfer plant neu oedolion y mae'r sawl y gwneir yr honiad yn ei erbyn â rhan ynddynt y tu allan i'w waith cyflogedig
- Ystyriaeth o gamau diogelu dros dro tra bo ymholiadau pellach yn cael eu gwneud.

- Penderfyniad ynglyn â pha wybodaeth y gellir ei rhannu gyda'r sawl y gwneir yr honiad yn ei erbyn, y plentyn neu oedolyn mewn perygl a'i riant/gofalwr
- Penderfyniadau ynglŷn ag ymwneud y cyflogwr o fewn y broses
- Adolygu pa mor ddigonol yw'r camau diogelu sydd yn eu lle
- Cytuno ar unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd neu unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen cyn y Cyfarfod ar Strategaeth Ymarferwyr
- Penderfynu a oes angen briffiau ar unwaith i reolwyr

**7) Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr**

Caiff y Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr ei gynnull gan y SDD pan fydd pryderon ynglŷn ag amddiffyn plant neu oedolion yn cael eu codi am unigolyn. Gall hyn naill ai fod ar sail bersonol neu broffesiynol, lle mae gan yr unigolyn gysylltiad ehangach gyda phlant neu oedolion mewn perygl a'i fod mewn sefyllfa o ymddiriedaeth.

Prif swyddogaethau'r cyfarfod strategaeth yw i:

- Sicrhau bod gweithdrefnau plant, amddiffyn oedolion, troseddol a chyflogaeth yn cael eu cydlynu'n briodol
- Rhannu'r holl wybodaeth berthnasol am yr honiad/pryder dan sylw
- Ystyried pa gamau y gallai fod eu hangen i amddiffyn y plentyn neu'r oedolyn sydd mewn perygl
- Ystyried y tebygolrwydd o niwed i blant neu oedolion eraill mewn perygl y mae gan y person gyswllt â nhw yn eu gwaith neu mewn gweithgareddau eraill, a chytuno ar unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen
- Ystyried a gwerthuso'r perygl o niwed i blant ei hun y sawl y gwneir yr honiad yn ei erbyn, a/neu berthnasau sy'n ddibynnu arno a chytuno ar unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen
- Trafod unrhyw honiadau blaenorol neu bryderon eraill.
- Cynllunio unrhyw ymholiadau sydd eu hangen a dyrannu tasgau a gosod amserlenni
- Penderfynu pwy sydd i gael ei holi a'r asiantaeth sy'n arwain
- Adnabod y rheolwr cyswllt arweiniol o fewn pob asiantaeth
- Penderfynu pa wybodaeth y gellir ei rhannu gyda phwy, pryd a phwy fydd yn gwneud hyn
- Cytuno ar amserlenni ar gyfer camau gweithredu a/neu ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd pellach
- Ystyried a fu unrhyw gwestiynu ar addasrwydd yr oedolyn i barhau i weithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl yn ei swydd bresennol
- Ystyried a oes angen edrych eto ar unrhyw faterion disgyblu
- Cytuno ar ba gam yn y broses y dylid gwneud gwaith dilynol ar unrhyw faterion disgyblu
- Ystyried unrhyw ffactorau eraill all effeithio ar y ffordd y mae'r achos yn cael ei reoli e.e. ystyried yr angen am strategaeth gyfryngau lle y mae diddordeb yn debygol o fod gan y wasg
- Cadarnhau'r trefniadau ynglŷn â phwy fydd yn cyfathrebu â'r sawl y mae pryderon amdano a sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei rhoi

- Sicrhau bod yr atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chyrff cofrestru yr ymarferydd dan sylw (gellir cwblhau hyn unrhyw bryd drwy gydol y broses)
- Mae'n bosibl y bydd rhaid i'r cyflogwr/sefydliad gwirfoddol neu gorff cofrestru ystyried gwahardd y cyflogai heb ragfarn, neu roi cymorth neu gyfyngiadau eraill yn eu lle i ddiogelu personau sy'n agored i niwed, i ddiogelu'r cyflogai yn erbyn cyhuddiadau o ymyrryd yn yr ymholiadau, ac fel mesur diogelu i'r sefydliad

Mae'n debygol y bydd angen mwy nag un Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr i gydlynu, monitro ac adolygu'r broses.

**8) Pwy i'w Wahodd i'r Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr**

Caiff y Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr ei gadeirio gan y SDD ar gyfer plant neu oedolion fydd hefyd yn nodi pwy fydd yn bresennol. Mewn achosion lle mae pryder am ddiogelwch plentyn neu oedolyn yn cael ei godi am weithiwr a gyflogir dan adain Taliadau Uniongyrchol, mae gan y cyflogwr yr her benodol o gyflawni rôl y cyflogwr a rhiant y plentyn a allai fod wedi cael ei niweidio neu fod mewn perygl, yn gysylltiedig â'r pryder.

Mewn achosion lle y mae'r person wedi'i gyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro neu Ymddiriedolaeth GIG Felindre, caiff y Bwrdd Iechyd neu Dîm Diogelu Corfforaethol Ymddiriedolaeth GIG Felindre a eu gwahodd a byddant yn nodi staff perthnasol arall o'r tu mewn i'r Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Dylai'r cadeirydd yn yr achosion hyn roi ystyriaeth arbennig i sut fydd y rhieni / cyflogwr yn cael ei gefnogi wrth gyfrannu at y broses. Dylid ymgynghori â'r rhieni/cyflogwr ynglŷn â manteision cael trydydd parti sy'n gwybod am ddyletswyddau/hawliau cyfraith cyflogaeth i gynrychioli'r rhiant fel cyflogwr yn y cyfarfodydd strategaeth hyn.

Rhoir ystyriaeth i wahodd y bobl ganlynol:

- Gwasanaethau Plant neu Wasanaethau Oedolion gyda manylion o'r pryderon/honiadau a adroddwd
- Heddlu
- Rheolwr Tîm a Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl
- Rheolwr y Tîm Gofal Maeth, Rheolwr Tîm Lleoli Oedolion
- Rheolwr Cofrestredig yr Uned Breswyl lle y mae'r honiad yn erbyn gofalwr maeth neu weithiwr preswyl (gan gynnwys sector Gwirfoddol neu asiantaeth breifat)
- Rheolwr cofrestredig ar gyfer darpariaeth gwasanaethau oedolion h.y. Cartref gofal.
- Darparwr gofal cartref, byw â chymorth a gwasanaethau dydd (gan gynnwys sector Gwirfoddol neu asiantaeth breifat)
- Cynrychiolydd cyfreithiol yr Awdurdod Lleol
- Cyflogwr (lle y mae'r cyflogwr eisoes yn ymwybodol o bryderon, neu lle y mae datgelu pryderon wedi digwydd)
- Cynrychiolydd Iechyd (dim ond pan fydd testun y cyfarfod strategaeth yn gyflogai Iechyd)
- Tîm Comisiynu yr Awdurdod Lleol

DRAFT

- AGC (lle y bo'r pryder am Ofalwr Maeth, yn Ofalwr Lleoliad i Oedolion yn Warchodwr Plant neu'n Ddarparwr Gofal i Oedolion a Phlant)
- AGIC (Lle mae'r pryder am Ymarferydd mewn lleoliad iechyd mae'n ei reoleiddio h.y. ysbyty preifat)
- Cynrychiolydd addysg pan fydd yr unigolyn dan sylw yn gweithio yn yr asiantaeth hon, a Chadeirydd y Llywodraethwyr pan fydd yr honiad yn erbyn Pennaeth
- Cynrychiolydd Adnoddau Dynol neu Bersonél (sydd â'r awdurdod i gynghori'r cyflogwr am atal dros dro)
- Cynrychiolydd sefydliad gwirfoddol
- Unigolyn Cyfrifol (UC), os yw'n berthnasol
- Eraill fel sy'n briodol

**9) Rhoi gwybod i'r unigolyn**

Wrth roi gwybod i'r unigolyn dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r canlynol:

- Dylai'r person sy'n destun yr honiad gael cefnogaeth briodol gan ei gyflogwr neu gan unigolyn a enwebir
- Dylid trin y person sy'n destun yr honiad yn deg ac yn onest a chael ei helpu i ddeall y pryderon a fynegir a'r prosesau dan sylw
- Yn gyffredinol, dylid rhoi gwybod i'r person sy'n destun yr honiad ei fod yn destun honiad cyn gynted â phosibl
- Os cafodd yr honiad ei wneud parthed gofalwr maeth neu ofalwr lleoliad oedolion, dylid rhoi gwybod iddo bod y rheolwr neu'r cynrychiolydd cofrestredig wedi gwneud honiad
- Ni fydd y cyflogwr yn rhoi gwybod i'r cyflogai am fanylion yr honiad tan i'r amseriadau am wneud hynny gael eu cytuno gyda Gwasanaethau Plant neu Oedolion/ yr Heddlu. Caiff hyn ei ystyried yn ystod y trefniadau diogelu interim a drafodwyd ac y cytunwyd arnynt gan y SDD a'r Heddlu a Ddynodwyd i Wneud Penderfyniadau.
- Ni ddylai gwybodaeth am yr oedolyn, y plentyn neu'r teulu gael ei rhannu gyda'r unigolyn y gwnaed yr honiad yn ei erbyn neu gydag unrhyw un sy'n ei gynrychioli
- Wrth benderfynu pryd i roi gwybod i'r unigolyn, dylid ystyried unrhyw risgiau posibl i'r plentyn neu i'r oedolyn sy'n destun yr honiadau, neu i unrhyw blant neu oedolion eraill sy'n gysylltiedig â chartref, gwaith neu fywyd cymunedol yr unigolyn
- Hefyd dylid ystyried y posibiliad o'r unigolyn yn atal unrhyw ymchwiliad, dileu neu ymyrryd â thystiolaeth neu fygwth neu orfodi tystion posibl
- Os caiff ei atal o'r gwaith, rhoddir y newyddion diweddaraf i'r unigolyn am ddigwyddiadau yn y gweithle gan gyswllt a enwir
- Cyn gynted â phosibl ar ôl i honiad gael ei dderbyn, dylid cynghori'r aelod o staff a gyhuddir i gysylltu â'i Undeb Llafur neu ei gymdeithas broffesiynol
- Dylid ymgynghori ag Adnoddau Dynol (neu ymgynghorwyr Adnoddau Dynol) cyn gynted â phosibl er mwyn i gymorth priodol gael ei ddarparu trwy drefniadau iechyd galwedigaethol, lles cyflogeion y sefydliad, neu drefniadau diogelu yr asiantaeth unigol ei hun

- Dylid rhoi ystyriaeth i les meddyliol y person y gwnaed yr honiad iddo, yn benodol mewn perthynas â hunan-niwed neu feddyliau o hunanladdiad.

**10) Rhoi gwybod i rieni/gofalwyr, plant, oedolion mewn perygl neu eu cynrychiolwyr**

Yr egwyddor gyffredinol yw y dylid rhoi gwybod i rieni neu ofalwyr yr oedolyn neu'r plentyn/plant dan sylw a'r oedolyn neu'r plentyn/plant lle y bo'n briodol, am yr honiad cyn gynted â phosibl ond dim ond ar ôl trafodaeth gyda'r SDD sy'n gyfrifol am bryderon Ymarferwyr.

Mae'n rhaid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr yr oedolyn neu'r plentyn/plant dan sylw a'r oedolyn neu'r plentyn/plant lle y bo'n briodol, o ganlyniad y trafodaeth/cyfarfod strategaeth a dylid, pan fydd angen, eu helpu i ddeall y penderfyniadau y daethpwyd iddynt. Penderfynir yn y cyfarfod Trafodaeth Strategaeth neu'r Strategaeth Canlyniad pwy fydd yn gwneud hyn.

Gallai enghreifftiau lle na fydd o bosibl yn briodol rhoi gwybod i rieni, gofalwyr, oedolion neu blentyn/plant neu eu cynrychiolydd ar unwaith gynnwys pan fo'r honiad a wnaed yn erbyn aelod o'r teulu, neu pe gallai ymchwiliad yr Heddlu gael ei rwystro gan roi gwybod i'r rhiant/gofalwr, plentyn/oedolyn mewn perygl neu ei gynrychiolydd. Yn yr achosion hyn mae'n rhaid i'r amseriadau ar gyfer dweud wrth y rhieni neu'r gofal gael eu cadarnhau gyda'r Gwasanaethau Plant/ Oedolion Perthnasol a'r Heddlu.  Mae hefyd yn bwysig ystyried unrhyw materion sy'n gysylltiedig â chyfrinachedd er mwyn i'r ymarferydd sy'n peri pryder ddeall beth y gellir ei rannu.

**11) Ymddiswyddiadau a 'chytundebau setliad'**

Pe bai unigolyn yr ymchwilir iddo ddatgan ei fod am ymddiswyddo yn ystod y broses ddiogelu, bydd yr ymchwiliad yn parhau, ni waeth am unrhyw setliad y cytunwyd arno.

**12) Cwblhau'r Broses**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn amlygu dyletswyddau'r Cyfarfod Canlyniad Strategaeth yr Ymarferydd i benderfynu, yn ôl yr hyn sy'n debygol, y profir y pryderon.  Os penderfynir nad oes sail i'r pryderon, dylid cofnodi'r canlyniad fel un sydd heb ei brofi, yn ddi-sail neu wedi cael ei ffugio'n fwriadol neu'n faleisus. Bydd y diffiniadau canlynol yn ganllaw i gyfarfodydd ar strategaeth i benderfynu pa ganlyniad sy'n addas;

Bydd canlyniadau i honiadau o fewn y pedwar categori canlynol:

- **Wedi'i brofi** – Mae honiad wedi'i brofi yn un  a gadarnheir gan dystiolaeth neu brawf.

- **Heb ei brofi** – Nid yw honiad heb ei brofi yr un fath â honiad y profir yn ddiweddarach ei fod yn ffug.  Mae'n golygu yn syml nad oes digon o dystiolaeth adnabyddadwy i brofi neu wrthbrofi'r honiad.   Nid yw'r term felly yn awgrymu euogrwydd na dieuogrwydd.



DRAFT

- **Di-sail** – mae hyn yn awgrymu bod y person a wnaeth yr honiad wedi camddehongli'r digwyddiad neu wedi camgymryd yr hyn a welodd. Neu, mae'n bosibl nad oedd yn ymwybodol o'r holl amgylchiadau. Er mwyn i honiad gael ei roi mewn categori 'di-sail' – bydd angen cael tystiolaeth i wrthbrofi'r honiad.

- **Wedi'i ffugio'n fwriadol neu'n faleisus** – mae hyn yn golygu bod tystiolaeth eglur i brofi bod gweithred fwriadol wedi bod i dwyllo a bod yr honiad yn gwbl ffug.

Bydd y drafodaeth ar ganlyniadau fel arfer yn digwydd cyn unrhyw benderfyniad gan y cyflogwr i weithredu gweithdrefnau disgyblu. Lle mae sail i'r pryderon, dylai asiantaethau sy'n cyflogi neu rai gwirfoddol ymgynghori â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, a chyrff proffesiynol perthnasol eraill ynglŷn â'r angen i atgyfeirio. (Gellir cael rhagor o wybodaeth a chanllawiau gan y GDG o'u gwefan yn www.homeoffice.gov.uk/dbs).

## 13) Ar Ôl Cwblhau'r Broses

Ar ddiwedd y broses pryderon Ymarferwyr, mae angen rhoi ystyriaeth i roi gwybod i'r holl gyrff Ymarferwyr perthnasol. Os bydd canlyniadau'r broses pryderon ymarferwyr yn arwain at y pryder yn cael ei brofi, dylai'r cyfarfod hefyd ystyried atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) (gweler prawf niwed y GDG), a'i gofnodi yn nghofnod y cyfarfod, y crynodeb a'r argymhellion.

Mae atgyfeiriad i'r GDG yn gyfrifoldeb y cyflogwr a dylid cadarnhau'r cam hwn gyda Chadeirydd y cyfarfod.

Mae'n rhaid gwneud cofnod o'r Holl achosion ymarferwyr yr adroddwyd amdanynt i'r awdurdod lleol neu i Carefirst i hwyluso rhannu gwybodaeth ac adrodd i Lywodraeth Cymru.

## 14) Materion Traws-Ffiniol

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol lle y digwyddodd y cam-driniaeth honedig/ lle y cododd y pryder yw cynnal y Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr. Mae hwn yn faes gwaith a gefnogir orau gan weithio'n gadarn rhwng awdurdodau Pan fydd ymholiadau amddiffyn plant neu oedolion wedi'u gwneud mewn un ardal, ond bod y troseddwr honedig yn byw neu'n gweithio mewn ardal arall, bydd angen rhannu gwybodaeth rhwng y ddwy ardal. Rhaid i'r SDD sicrhau ei fod yn rhannu'r holl wybodaeth gyda'i swyddog cyfatebol yn yr Awdurdod Lleol arall. Ar ôl trafodaeth rhwng y swyddogion SDD penderfynir a chofnodir pa awdurdod fydd yn gyfrifol am gynnull y Cyfarfod ar Strategaeth Ymarferwyr a'r rhesymau pam.

**15) Cyfrinachedd a Chofnod o'r Cyfarfod ar Strategaeth Ymarferwyr**

Yng ngoleuni sensitifrwydd posibl y wybodaeth a gwersi Ymchwiliad Bichard (police.homeoffice.gov.uk/publications/bichard-inquiry-report), dylid cymryd gofal wrth gofnodi'r pryder a chanlyniad y broses.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn datgan y canlynol

'*Caiff cofnod o'r cyfarfod ei wneud a'i gadw gan yr awdurdod lleol yn unol â'u harweiniad arfer cofnodi, cadw a gwaredu. Dylai mynychwyr sy'n cynrychioli'r cyflogwr dderbyn copi o'r crynodeb ac argymhellion y cyfarfod gydag enw'r plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl wedi'i ddileu. Bydd pob mynychwr arall yn derbyn copi o'r crynodeb a'r argymhellion'.* (Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019)

Fodd bynnag rydym wedi cytuno yn rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg y bydd yr holl rai sy'n bresennol yn derbyn copi o'r cofnod o'r cyfarfod strategaeth a fydd yn cynnwys manylion y plentyn sydd mewn perygl.

Bydd y SDD yn ystyried unrhyw gais am gofnod llawn o'r cyfarfod ac yn sicrhau, os bydd datgeliad, y caiff fersiwn wedi'i golygu o'r cofnod ei datgelu.

Pan fydd y person yn gwneud cais wrthrych data am wybodaeth am gofnod y Cyfarfod Strategaeth Ymarferydd, caiff hyn ei ystyried a bydd SDD yr awdurdod lleol yn sicrhau golygu'r ddogfen cyn datgelu. Rhoddir gwybod i fynychwyr eraill y cyfarfod am y cais a gellir anfon copi iddynt o'r ddogfen wedi'i golygu ar gais.

Gellir rhannu'r wybodaeth am y crynodeb a'r argymhellion a ddarperir i'r cyflogwr (gweler y dudalen 13 flaenorol) fel rhan o broses ddisgyblu fewnol, ar yr amod y cedwir at y ddeddfwriaeth diogelu data a bod rhannu gwybodaeth yn parhau ar 'sail angen gwybod' yn unig.

Yn yr un modd, gellir rhannu gwybodaeth berthnasol gyda chyrff proffesiynol perthnasol (e.e. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Gofal Cymdeithasol Cymru), eto yn union unol â deddfwriaeth diogel data, ar 'sail angen gwybod', a chyda'r diben o sicrhau y caiff plant ac oedolion sydd mewn perygl eu diogelu yn y dyfodol. Dylai SDD yr awdurdod lleol sicrhau y caiff rhannu gwybodaeth gyda chyrff proffesiynol perthnasol ei drafod fel rhan o'r Cyfarfod Strategaeth, ac y caiff penderfyniadau a wneir ynghylch hyn eu cofnodi. Mae hyn yn cynnwys pa asiantaeth fydd yn hwyluso hyn, mewn achosion lle y cytunir ei fod yn berthnasol rhannu gwybodaeth am Ymarferydd cofrestredig.

Lle yr ystyrir bod defnyddio gwybodaeth y gellir ei hadnabod yn berson yn hanfodol, dylid cyfiawnhau pob eitem unigol o wybodaeth gyda'r nod o leihau adnabod. Dim ond yr unigolion hynny y mae arnynt angen mynediad at wybodaeth y gellir ei hadnabod yn berson ddylai gael mynediad ati.

Dylid cymryd camau i sicrhau bod y rhai sy'n ymdrin â gwybodaeth y gellir ei hadnabod yn bersonol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau i barchu cyfrinachedd.

Mae'n rhaid i bob defnydd o wybodaeth y gellir ei hadnabod yn berson fod yn gyfreithlon. Dylai

SDD yr awdurdod lleol geisio cyngor gan y person yn ei sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r holl ofyniadau cyfreithiol.

## 16. Datrys Gwahaniaethau Rhwng Ymarferwyr

Pan fydd gwahaniaeth rhwng ymarferwyr, dylid cyfeirio at *Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol: Datrys Gwahaniaethau Ymarferwyr(2019)* Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Caerdydd a'r Fro https://www.cardiffandvalersb.co.uk/wp-content/uploads/Protocol-for-the-Resolution-of-Professional-Differences-Endorsed-Nov-2018.pdf

Atodiadau

- Atodiad 1: Map Proses Pryderon Ymarferwyr
- Atodiad 2: Cymorth Cof ar gyfer y Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr
- Atodiad 3: Canllawiau a Gwybodaeth i bawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl, pan fydd pryder diogelu wedi'i wneud yn eich erbyn
- Atodiad 4: Canllawiau a gwybodaeth i Ofalwyr Maeth, Gofalwyr sy'n Berthnasau a Gofalwyr Lleoliadau Oedolion pan fydd honiad wedi'i wneud yn eich erbyn
- Atodiad 5: Canllaw i blentyn, person ifanc neu oedolyn sydd wedi codi pryder neu wneud honiad o gam-drin yn erbyn oedolyn sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gydag ef
- Atodiad 6: Canllaw i rieni/gofalwyr plentyn neu berson ifanc sydd wedi codi pryder neu wneud honiad o gam-drin yn erbyn oedolyn sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant a phobl ifanc

DRAFT

**Atodiad 1**

**MAP PROSES PRYDERON YMARFERWYR**

**Adroddiadau ar bryderon am bobl y mae eu gwaith yn dod â nhw i gysylltiad a phlant neu**

Pryderon yr adroddwyd arnynt i SDD yr Awdurdod Lleol heb fod y fwy na 24 awr ar ôl i'r pryder godi

**oedolion sydd mewn perygl (mae'n bosibl y byddant yn rhedeg ar yr un pryd â'r broses diogelu plant neu oedolion)**

- Casglu GWYBODAETH
- Ystyried y trothwy
- Asesu unrhyw gamau Diogelu sydd eu hangen ar unwaith

Ni fodlonwyd y → Cofnodi a diweddaru'r atgyfeiriwr/adroddwr

Ildio i'r asiantaeth unigol ar gyfer y broses fewnol neu AD os yw'n briodol

- Trafodaeth Strategaeth gyda'r Heddlu, partneriaid priodol, y cyflogwr;
- Adolygu pa mor ddigonol yw'r camau diogelu sydd ar waith;
- Ystyried y trothwy;
- Cytuno ar Gamau Gweithredu

Ni fodlonwyd y → Cofnodi a Rhoi gwybod i'r cyflogwr neu i'r adran AD - os na fodlonir y trothwy a chytunwyd i beidio â bwrw ymlaen

Cyfarfod strategaeth i gytuno/cynllunio Ymchwiliad ayyb. (oni bai bod digon o wybodaeth i ddod i gasgliad)

Ymchwiliad (os bydd angen)
Adolygu cynnydd yr ymchwiliad (mae'n bosibl y bydd angen cyfarfodydd strategaeth ychwanegol)

→ Argymhellion neu gamau gweithredu pellach yn ôl y gofyn

Cwblhau'r Broses: Bydd Canlyniad y Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr yn penderfynu a brofir neu beidio (4 o ganlyniadau posibl) Byddai hyn fel arfer yn rhagflaenu proses ddisgyblu'r cyflogwr:

→ **Cofnodi'r canlyniad/ camau**

Profwyd → Cadarnhawyd yr honiad gan dystiolaeth

Heb ei brofi → Heb ei brofi na'i wrthbrofi, felly nid yw'n euog neu'n ddieuog

Heb sail → Mae tystiolaeth i wrthbrofi'r honiad

Wedi'i ddyfeisio'n fwriadol neu'n faleisus → Mae tystiolaeth glir o dwyll ac mae'r honiad yn ffug

Dylid rhoi ystyriaeth i atgyfeiriadau i'r GDG a Chyrff Proffesiynol gan y Cyflogwr
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/502089/DBS_referral_flowchart.pdf

Mae'n rhaid gwneud trefniadau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ymarferwyr sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth

DRAFT

**Atodiad 2**

## CYFARFOD STRATEGAETH YMARFERWYR

## COF CYMORTH AR GYFER YR AGENDA

| 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, Datganiad o Ddiben a Chrynodeb y Cadeirydd o'r trothwy/rhesymeg dros gynnal Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr. |
|---|
| Diolch i'r cyfarfod. Gwneir y cyflwyniadau a nodir yr ymddiheuriadau.<br><br>**Datganiad Cyfrinachedd i'w ddarllen**<br><br>Mae hwn yn Gyfarfod Strategaeth Pryderon Ymarferwyr a gynhelir o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru ac yn unol â gofynion Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl (Cyfrolau 1-7). Mae'r wybodaeth a rennir yn gyfrinachol ac ni ddylid ei rhannu y tu allan i'r cyfarfod hwn heb ganiatâd y Cadeirydd.<br><br>Caiff y cofnod o'r cyfarfod strategaeth ei rannu gyda chyfranogwyr y cyfarfod. Gall y cofnod o'r cyfarfod strategaeth fod yn destun ceisiadau mynediad o dan y Ddeddf Diogelu Data a chaiff y broses hon ei rheoli gan y Cadeirydd gan gynnwys defnydd gwybodaeth trydydd parti a materion sy'n ymwneud â chydsynio.<br><br>**Diben y Cyfarfod**<br><br>Diben cyfarfod heddiw yw:<br><br>• Rhannu gwybodaeth<br>• Penderfynu a oes cyfiawnhad dros ymchwiliad/ neu a ddylid parhau os caiff ei gychwyn<br>• Cynllunio unrhyw ymholiadau<br>• Sicrhau bod llais y plentyn/oedolyn sydd mewn perygl yn cael ei glywed<br>• Cydlynu ac adolygu gweithredu gweithdrefnau amddiffyn plant/oedolion, gweithdrefnau troseddol a chyflogaeth<br>• Sicrhau bod mesurau diogelu effeithiol ar waith<br>• Sicrhau bod gan unigolion dan sylw fynediad at wybodaeth a chymorth.<br><br>**Crynodeb o'r Trothwy a'r rhesymeg dros y Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr**<br><br>Crynodeb cadeiryddion o'r trothwy a'r rhesymeg dros yr achos hwn (cyfeiriwch at Weithdrefnau Diogelu Cymru Diogelu Honiadau/Pryderon am Ymarferwyr a Phrotocol y Rhai sydd Mewn Sefyllfa o Ymddiriedolaeth). |
| **2. Manylion Atgyfeirio** |
| (a) Manylion, dyddiadau geni Plant/Oedolion sydd mewn perygl;<br><br>• Cyfeiriadau;<br>• Cynnwys teuluoedd plant<br>• Manylion adnabod unrhyw blant/ oedolion a allai fod mewn perygl.<br>• Unrhyw gyfraniad arwyddocaol /Ymarferwyr |

DRAFT

(b) Manylion unigolyn y gwneir honiadau amdano neu a godir pryderon amdano
yr honiad a'r risg a nodwyd:

- Enw, dyddiad geni a chyfeiriad
- Rôl, Cyflogwr, man gwaith, gwaith gwirfoddol ac unrhyw gysylltiad â phlant neu oedolion as allai fod mewn perygl

(c) Ffynhonnell Atgyfeirio

**3. Cofnod a Chamau Gweithredu Blaenorol (lle y bo'n berthnasol)**

- Unrhyw wallau/ diwygiadau;
- Materion yn codi
- Argymhellion o'r cyfarfod blaenorol

**4. Trafodaeth/Pryder**

- Rhannu gwybodaeth ar ffurf llinell amser/ cronoleg gan bob ymarferydd gan gynnwys honiadau presennol ac unrhyw rai blaenorol
- Mae angen ystyried a oes gan y person dan sylw ei blant ei hun ac os felly, a oes unrhyw bryderon parthed ei ymddygiad tuag atynt. Hefyd rhoddir ystyriaeth i unrhyw fynediad y gallai fod gan y person dan sylw at blant neu oedolion a allai fod mewn perygl mewn rolau eraill (mam-gu neu dad-cu, gwirfoddolwr, hyfforddwr chwaraeon, arweinwyr y sgowtiaid, gweithwyr clwb ieuenctid ayyb.) Gwirio cysylltiadau
- Ystyriaeth o'r 3 thrywydd: ymholiadau amddiffyn plant/oedolion, ymchwiliad troseddol a chyflogaeth
- Dadansoddi, asesu risg a rheoli risg

**5. Strategaeth Gyfathrebu a Chyfryngau Ehangach**

- Ystyried unrhyw strategaethau asiantaeth ar y cyd neu unigol

**6. Crynodeb**

- Crynodeb y cadeirydd o'r pwyntiau allweddol
- Ar gyfer y cyfarfod strategol terfynol, sicrhau y deuir â'r broses i ben gan ddefnyddio un o'r categorïau canlyniadau
- Cofnodi gwneud penderfyniadau gan bob asiantaeth/ymarferydd sy'n bresennol a rhesymau dros y canlyniad

**7. Camau gweithredu/argymhellion ac amserlenni**

Mae'n rhaid i'r holl Gynllunio Gweithredu fod yn CAMPUS

- Egluro'r holl argymhellion a chamau gweithredu
- Gosod y dyddiad Adolygu (os bydd angen)

DRAFT

**Atodiad 3**

Os oes gennych bryderon am ymarferydd/person mewn swydd o ymddiriedaeth ac nad oes plentyn, oedolyn neu ddioddefwr honedig mewn perygl, gellir defnyddio'r ffurflen isod i dynnu sylw'r Swyddog Diogelu Dynodedig (SDD) at eich pryderon.

Ffurflen Adrodd Pryderon Ymarferydd/Swydd o Ymddiriedaeth:

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr adroddiad | |

| | |
|---|---|
| Enw'r Ymarferydd/Person mewn Swydd o Ymddiriedaeth | |
| Dyddiad Geni | |
| Cyfeiriad Cartref | |
| Plant ac oedolion agored i niwed sydd hefyd yn byw yn y cyfeiriad | |

| | |
|---|---|
| Swydd / Rôl gwirfoddoli | |

| | |
|---|---|
| Rolau eraill gyda phlant neu oedolion mewn perygl – â thâl neu'n ddi-dâl | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Achos Pryder | |
| Tystion | Noder: Rhowch enw, cyfeiriad a manylion cyswllt unrhyw dystion i'r pryder |

| | |
|---|---|
| Trefniadau Rheoli Risg | |
| Dyletswydd cyflogwr | Sylwer: cyfrifoldeb y cyflogwr/cyflogaeth/Asiantaeth wirfoddol/preifat mewn ymgynghoriad ag Adnoddau Dynol perthnasol yw rhoi cymorth i'r ymarferydd/person mewn swydd o ymddiriedaeth drwy gydol y broses strategaeth broffesiynol |

| | |
|---|---|
| Enw, Rôl a Manylion Cyswllt yr atgyfeiriwr | |

DRAFT

Atodiad 4

BYRDDAU DIOGELU RHANBARTHOL  CAERDYDD A BRO MORGANNWG

# Canllawiau a gwybodaeth i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl pan fydd pryder diogelu wedi'i wneud yn eich erbyn



**Cyflwyniad**

Nod y daflen hon yw rhoi gwybodaeth i chi am beth sy'n digwydd os y gwneir honiad o gam-drin neu esgeulustod yn eich erbyn.

Mae bob amser yn bwysig y cymerir honiadau o'r fath o ddifrif a'u bod yn cael eu hymchwilio'n iawn, oherwydd bod achlysuron pan fydd plant/oedolion yn cael eu cam-drin gan bobl sy'n gweithio gyda nhw neu'n gofalu amdanynt.

Cydnabyddir bod dod yn destun honiad yn peri straen i'r unigolyn a'i deulu, a bydd pawb sy'n rhan o ymchwiliad yn gweithio i sicrhau y caiff plant/oedolion eu diogelu tra'n eich trin yn deg ar yr un pryd. Rhoddir cymorth i chi gan eich cyflogwr neu gan sefydliad gwirfoddol yn ystod ymchwiliad ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am beth sy'n digwydd.

**1. Beth sy'n digwydd pan gaiff honiad ei wneud?**

Mae'n rhaid cyfeirio pob honiad yn erbyn y rhai sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion (yn gyflogedig neu'n ddi-dâl fel gwirfoddolwr) at Wasanaethau Plant/ Gwasanaethau Oedolion. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar bob '*ymarferydd'* (Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019) i adrodd am bryder bod plentyn neu oedolyn mewn perygl neu gallai fod mewn perygl, ac mae'n rhaid i'r holl bryderon a wnaed am y rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion (boed mewn rôl gyflogedig/di-dâl) gael eu hasesu/ eu hymchwilio gan yr awdurdod lleol.

Os cafodd pryder am amddiffyn plentyn/oedolyn ei godi amdanoch chi y tu allan i'ch gwaith, eich dyletswydd chi yw dweud wrth eich cyflogwr (neu eich sefydliad gwirfoddol) ar unwaith. Mae'n bosibl y bydd y pryder hwn yn arwain at ragor o ymholiadau am eich gwaith ac unrhyw gyswllt sydd gennych â phlant/oedolion y tu allan i'ch bywyd gwaith (e.e. fel gwirfoddolwr, rhiant, gofalwr neu aelod o deulu)

Pan fydd Gwasanaethau Plant/Oedolion yn derbyn honiadau/ adroddiad am bryderon am unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sydd mewn perygl, mae'n ofynnol iddynt drefnu **Trafodaeth Strategaeth** gychwynnol gyda'r Heddlu ac ymarferwyr eraill sy'n adnabod yn plentyn/oedolyn sydd mewn perygl er mwyn edrych ar y wybodaeth a gwneud argymhellion ar gamau pellach.  Mae'n bosibl y bydd y drafodaeth hon yn nodi bod gofyn am **Gyfarfod Strategaeth** er mwyn cynllunio ymchwiliad i'r honiad/pryder ac wedyn penderfynu beth sydd angen digwydd mewn ymateb i ganlyniad yr ymchwiliad hwnnw.

**2. Cyswllt â phlant/ oedolion**

Yn ogystal ag ymchwilio i'r honiad, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i unrhyw gyswllt parhaus â phlant/oedolion sydd mewn perygl tra bod y broses hon yn mynd rhagddi.

Mae'n bosibl y bydd angen i Wasanaethau Plant/Oedolion gwblhau asesiadau ar gyfer unrhyw blant neu oedolion sydd mewn perygl y mae gennych gysylltiad agos â nhw. Gwneir hyn i benderfynu a oes angen cymryd camau i ddiogelu neu gefnogi'r plant/oedolion hynny sydd mewn

perygl. Mae hyn yn cynnwys plant/oedolion mewn perygl yn eich teulu eich hun. Bydd Gwasanaethau Plant/Oedolion yn asesu beth sy'n berthnasol i les gorau plant/oedolion sydd mewn perygl.

Caiff yr angen i unrhyw gamau gael eu cymryd ei benderfynu yn unol â natur a difrifoldeb yr honiad.

**3. Sut byddwch chi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf?**

Bydd eich cyflogwr, sefydliad gwirfoddol a/neu gorff cofrestru (e.e. cymdeithas chwaraeon/hyfforddwyr) yn gwneud penderfyniad am pa newidiadau y mae angen iddynt ddigwydd tra bod unrhyw ymchwiliad yn cael ei gynnal.

Os ydych yn gyflogai mewn gwasanaeth cofrestredig sy'n cael ei dalu – er enghraifft, cartref gofal neu weithiwr gofal cartref – efallai y gofynnir i chi weithio mewn lle gwahanol. Neu efallai y gofynnir i chi beidio â dod i'r gwaith yn ystod yr ymchwiliad. Diben hyn yw i'ch diogelu rhag cael eich rhoi mewn sefyllfa anodd tra bod cwestiynau'n cael eu gofyn ac i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni ei ddyletswydd i ddiogelu plant tra bod y sefyllfa'n cael ei datrys. Gwneir unrhyw benderfyniadau o'r fath heb ragfarn.

Byddant yn defnyddio eu polisïau cyflogaeth eu hunain er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael i chi os bydd ei angen arnoch. Bydd hefyd yn sicrhau y cewch y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd a'ch bod yn cael digon o rybudd i drefnu rhywun i'ch cefnogi pan fyddwch yn mynychu cyfweliadau neu gyfarfodydd.

Rhoddir gwybod i chi am y penderfyniadau perthnasol a rhoddir cyfle i chi ymateb i'r honiad/pryder a godwyd amdanoch.

**4. O ble gallaf gael cymorth a chyngor ychwanegol?**

Rhoddir cymorth i chi gan eich Rheolwr/ cynrychiolydd gwirfoddol lle y bo'n briodol a gallwch gael rhagor o gymorth gan eich adran adnoddau dynol, eich corff proffesiynol, sefydliad aelodau, undeb neu gynghorydd cyfreithiol. Mae'n bosibl y bydd gan eich sefydliad eisoes fynediad at wasanaeth lles neu gwnsela a fydd o bosibl yn eich helpu chi. Rydych chi bob amser â'r hawl i geisio cyngor, gwybodaeth a chymorth cyfreithiol.

**5. Cwblhau'r Broses…**

Yn y Cyfarfod strategaeth terfynol neu ganlyniadau, caiff penderfyniad ei wneud, yn ôl yr hyn sy'n debygol, a brofir y pryderon neu beidio. Gall honiadau fod â'r pedwar canlyniad canlynol:

***Wedi'i brofi*** – mae honiad wedi'i brofi yn un sydd â thystiolaeth neu brawf

***Heb ei brofi* -** defnyddir pan fydd tystiolaeth annigonol i brofi neu wrthbrofi. Nid yw'r canlyniad hwn yn awgrymu euogrwydd neu ddi-euogrwydd.

***Heb sail*** - Mae tystiolaeth i wrthbrofi'r honiad. Gellir defnyddio'r canlyniad hwn mewn achosion pan fydd y person sy'n gwneud yr honiad wedi camddehongli'r digwyddiad neu wedi gwneud camsyniad yn yr hyn a welodd, neu fel arall nid oedd yn ymwybodol o'r holl amgylchiadau

***Wedi'i ffugio'n fwriadol neu'n faleisus*** – mae tystiolaeth eglur i brofi bod gweithred fwriadol wedi bod i dwyllo a bod yr honiad yn gwbl ffug

Dylai'r cyfarfod strategaeth canlyniadau ragflaenu unrhyw benderfyniad gan y cyflogwr i ddefnyddio gweithdrefnau disgyblu.

Byddwch yn derbyn llythyr gan Gadeirydd y cyfarfod yn rhoi gwybod i chi am y canlyniad ac yn esbonio mor llawn â phosibl y rhesymau dros y canlyniadau. Gallwch gysylltu a'r Cadeirydd os nad ydych yn siŵr o'r rhesymau, neu'n anghytuno â nhw.

**6. Sut fydda i'n gwybod y Canlyniad?**

Bydd eich cyflogwr, eich sefydliad gwirfoddol a/neu eich corff cofrestru yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad y canlyniad. Pan fydd y pryderon wedi'u profi, mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at weithdrefnau disgyblu pellach a chamau pellach, e.e. rhoi gwybod i GDG.

Mae'n bosibl y bydd canlyniadau eraill yn arwain at gamau/dysgu pellach a bydd eich cyflogwr, sefydliad gwirfoddol a/neu gorff cofrestru yn rhoi gwybod i chi am hyn.

Bydd Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol dros Ddiogelu (y Cadeirydd) yn ysgrifennu atoch yn ffurfiol gyda phenderfyniad y canlyniad

**7. A gaiff cofnod ei gadw?**

Gwneir cofnod o drafodaethau/cyfarfodydd a'i gadw gan yr Awdurdod Lleol yn unol â'u polisi Cofnodi, Cadw a Gwaredu.

Gellir gwneud unrhyw geisiadau am gopi o'r cofnodion hyn fel Cais Gwrthrych am Wybodaeth i'r adran berthnasol yn yr ALI (swyddfa Rhyddid Gwybodaeth)

**8. A allaf gwyno?**

Os ydych yn anhapus â'r broses pryderon ymarferwyr, yn y lle cyntaf dylech chi godi pryder gyda Chadeirydd y broses. Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon gallwch ystyried codi cwyn gyda'r Bwrdd Diogelu Oedolion/Plant am y broses a gynhaliwyd. Gall yr un olaf ystyried a ddilynwyd/ glynwyd wrth y broses briodol.

DRAFT

Atodiad 5

BYRDDAU DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

# Gwybodaeth ac Arweiniad i Ofalwyr Maeth, Gofalwyr sy'n Berthnasau a Gofalwyr mewn Lleoliadau Oedolion pan fydd honiad wedi'i wneud yn eich erbyn



**Cyflwyniad**

Nod y daflen hon yw rhoi gwybodaeth i chi am beth sy'n digwydd os y gwneir honiad o gam-drin neu esgeulustod yn eich erbyn.

Cydnabyddir bod dod yn destun honiad yn peri llawer o straen i ofalwyr a'u teuluoedd. Bydd pawb sy'n rhan o achosion sy'n ymwneud â phryderon ymarferwyr/ pryderon am bobl sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth yn ymdrechu i sicrhau y cewch eich trin yn deg, tra'n sicrhau ar yr un pryd y caiff plant ac unrhyw oedolyn sydd mewn perygl eu diogelu. Rhoddir cymorth i chi yn ystod y broses a byddwch yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am beth sy'n digwydd.

Cydnabyddir, pan fydd honiadau'n ymwneud â rhywun sy'n gofalu am blant neu oedolion sy'n agored i niwed yn eu cartref eu hunain, mae hyn yn ychwanegu dimensiwn arall.

Cynlluniwyd y protocol hwn i ateb rhai o'r problemau a godir amlaf gan ofalwyr sy'n gofalu am blant neu oedolion yn eu cartref eu hunain sydd wedi bod yn destun y broses pryderon diogelu ac i egluro yn union yr hyn y gallwch ei ddisgwyl yn nhermau'r broses ei hun a'r cymorth sydd ar gael i chi.

**1. Beth sy'n digwydd pan gaiff honiad ei wneud?**

Caiff yr honiad ei gyfeirio at Wasanaethau Plant/Oedolion neu at yr Heddlu a chynhelir ymholiadau neu asesiad cychwynnol er mwyn penderfynu a oes seiliau dros gymryd camau pellach yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn golygu y caiff penderfyniad ei wneud ynghylch a yw'r atgyfeiriad ynglŷn â honiad y mae angen ymchwiliad pellach arno, neu'n bryder neu'n gŵyn y dylid ymdrin â hi gan yr asiantaeth rydych yn maethu/rhoi gofal drosti.

**2. O ble gallaf gael cymorth a chyngor?**

Cydnabyddir bod y broses hon yn aml yn peri llawer o straen a thrallod i'r rhai yr effeithir arnynt yn bersonol ac mae'n ofynnol i ni, yn y broses strategaeth, ystyried eich angen am gymmorth. Dylech ddisgwyl cymorth personol gan eich Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio neu Gyswllt/ Rheolwr Cofrestredig (Lleoliadau Oedolion) ond ni fydd yn gallu trafod yr honiad neu'r ymchwiliad gyda chi gan ei fod yn debygol o fod yn rhan ohono. Os byddwch yn teimlo y bydd hyn yn ei wneud yn fwy anodd i chi drafod eich pryderon neu eich teimladau am yr hyn sy'n digwydd, gallwch ofyn am gyswllt ag aelod arall o'ch Gwasanaeth Maethu/ Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion. Fodd bynnag ni fyddant ychwaith yn gallu trafod pethau penodol yr honiad gyda chi. Dylech ddisgwyl cael y newyddion diweddaraf am yr ymchwiliad ac unrhyw ran y mae'r Gwasanaethau Plant/Oedolion yn ei chwarae gyda'ch teulu eich hun.

**Rhwydwaith Maethu**
Cyfeiriad rhyngrwyd: https://www.fostering.net/wales
Llinell Gyngor Dros y Ffôn 08003167664

**Cysylltu Bywydau a Mwy**
Cyfeiriad rhyngrwyd: https://sharedlivesplus.org.uk
Llinell Gyngor Dros y Ffôn 0151 227 3499

DRAFT

## 3. Camau gweithredu mewn perthynas â'ch sefyllfa fel gofalwr maeth, gofalwr sy'n berthynas neu ofalwr mewn lleoliad oedolion

Mae'n rhaid cyfeirio pob honiad yn erbyn gofalwyr cofrestredig neu'r rhai sy'n gweithio o dan "gytundeb gofalwyr" at Wasanaethau Plant /Gwasanaethau Oedolion. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar bob ymarferydd i adrodd am bryder bod plentyn neu oedolyn mewn perygl neu y gallai fod.

Os ydych yn cael eich cyflogi gan Ddarparwr Annibynnol, bydd rhaid hefyd i'ch asiantaeth roi gwybod i'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGC) o'r honiad.

Os codwyd pryder amddiffyn plentyn/oedolyn am eich bywyd personol neu eich ymddygiad fel ymarferydd, eich dyletswydd chi yw dweud wrth eich Gweithiwr Cymdeithasol neu ei Reolwr ar unwaith. Mae'n bosibl y bydd y pryder hwn yn arwain ar ymholiadau pellach am eich addasrwydd i fod yn ofalwr.

## 4. Camau gweithredu mewn perthynas â'r oedolyn sy'n destun cytundeb gofalwyr neu blant rydych yn eu maethu

Yn ogystal ag ymchwilio i'r honiad, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i ddiogelwch yr holl plant/oedolion a leolir gyda chi. Bydd Gwasanaethau Plant/Oedolion yn asesu beth sydd er lles gorau'r plant/oedolion wrth wneud penderfyniad am a allant aros yn eich gofal neu beidio tra bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo. Ni wneir unrhyw leoliadau pellach gyda chi tra bod y broses yn parhau.

## 5. Camau gweithredu mewn perthynas â phlant/oedolion yn eich teulu eich hun

Mae'n bosibl y bydd angen hefyd i Wasanaethau Plant/Oedolion gwblhau asesiadau ar gyfer unrhyw blant neu oedolion sydd mewn perygl yn eich teulu rydych mewn cysylltiad agos â nhw. Gwneir hyn i benderfynu a oes angen cymryd camau i ddiogelu neu i gefnogi'r plant/oedolion hynny sydd mewn perygl.

Caiff yr angen i'r cam gweithredu hwn gael ei gymryd ei benderfynu yn unol â natur a difrifoldeb yr honiad.

## 6. Cyfarfod Cychwynnol y Strategaeth

Os bydd angen cymryd camau pellach o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru, cynhelir cyfarfod strategaeth cychwynnol. Cynhelir y cyfarfod i sicrhau y rhennir yr holl wybodaeth berthnasol ac i gynllunio pa gamau gweithredu y mae angen eu cymryd i benderfynu ar ffeithiau beth ddigwyddodd a'r effaith ar unrhyw blentyn oedd yn rhan ohono.

Os cynhelir unrhyw ymchwiliad, gwneir hyn gan Weithiwr Cymdeithasol nad yw wedi ymwneud â chi o'r blaen ac yn annibynnol ar y gwasanaeth lleoli teuluoedd/maethu/ lleoli oedolion yn ardal eich Awdurdod Lleol. Mae hefyd yn bosibl y bydd yr heddlu yn rhan o'r ymchwiliad.

## 7. Pwy fydd yn y cyfarfod strategaeth?

Caiff y cyfarfod ei gadeirio gan uwch aelod o Wasanaethau Plant/Oedolyn ac mae'n bosibl y bydd yn cynnwys:

- Staff Gwasanaethau Plant/Oedolion - y Rheolwyr Perthnasol, y Gweithiwr Cymdeithasol a gwblhaodd unrhyw asesiad yn ymwneud â'ch teulu eich hun, y Gweithwyr Cymdeithasol a'r swyddogion Adolygu Annibynnol ar gyfer y plentyn/plant/oedolyn rydych yn gofalu amdano
- Heddlu
- Y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n cwblhau'r ymchwiliad i'r honiad
- Rheolwr eich Gwasanaeth a'ch Gweithiwr Cymdeithasol
- Unrhyw ymarferwyr sydd â gwybodaeth am y plentyn/plant/oedolion rydych y gofalu amdanynt
- Rhywun o AGC

## 8. Cwblhau'r Broses…

Bydd partneriaid perthnasol yn gwneud penderfyniad yn ôl yr hyn sy'n debygol: byddant yn penderfynu a yw'r honiadau/pryderon yn cael eu profi. Os nad ystyrir bod yr honiadau/pryderon wedi'u profi, caiff y canlyniad ei gofnodi fel -

**Heb ei brofi**
**Yn ddi-sail neu**
**Wedi'i ddyfeisio'n fwriadol neu'n faleisus**

## 9. Sut fydda i'n gwybod y Canlyniad?

Bydd eich cyflogwr, eich sefydliad gwirfoddol a/neu eich corff cofrestru yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad y canlyniad. Pan fydd y pryderon wedi'u profi, mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at weithdrefnau disgyblu pellach a chamau pellach, e.e. rhoi gwybod i GDG. Mae'n bosibl y bydd canlyniadau eraill yn arwain at gamau/dysgu pellach a bydd eich cyflogwr, sefydliad gwirfoddol a/neu gorff cofrestru yn rhoi gwybod i chi am hyn. Bydd Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol dros Ddiogelu yn ysgrifennu atoch yn ffurfiol gyda phenderfyniad y canlyniad

## 10. A gaiff cofnod ei gadw?

Gwneir cofnod o drafodaethau/cyfarfodydd a'i gadw gan yr Awdurdod Lleol yn unol â'u polisi Cofnodi, Cadw a Gwaredu. Gellir gwneud unrhyw geisiadau am gopi o'r cofnodion hyn fel Cais Gwrthrych am Wybodaeth i'r adran berthnasol yn yr ALl (swyddfa Rhyddid Gwybodaeth)

## 11. A allaf gwyno?

Cewch. Os yw eich cwyn am unigolyn mae angen i chi gysylltu â'i Reolwr a fydd yn ymdrin â'ch cwyn. Os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd y cynhelir yr ymchwiliad o'r honiad yn eich erbyn, dylech gysylltu â Chadeirydd y Cyfarfod Strategaeth yn y lle cyntaf. Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon gallwch ystyried codi cwyn gyda'r Bwrdd Diogelu Oedolion/Plant am y broses a gynhaliwyd. Gall yr un olaf ystyried a ddilynwyd/ glynwyd wrth y broses briodol.

**Atodiad 6**

Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol
Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Children Board

Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol
Caerdydd a'r Fro
BDORhCaF
C&VRSAB
Cardiff & Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Adults Board

**BYRDDAU DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG**

# Canllaw i rieni/gofalwyr plentyn neu berson ifanc sydd wedi codi pryder neu wneud honiad o gam-drin yn erbyn oedolyn sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant a phobl ifanc



**Cyflwyniad**

Fel rhiant/gofalwr mae gennych hawl i ddisgwyl y dylai unrhyw ymarferydd sy'n gweithio gyda'ch plentyn ei gadw'n ddiogel ac ni ddylai ymddwyn mewn ffordd a fyddai o bosibl yn rhoi plentyn mewn unrhyw berygl o niwed. Gan ymarferwyr rydym yn golygu unrhyw oedolyn y tu allan i'ch cylch o deulu a ffrindiau y byddwch yn disgwyl i'ch plentyn ymddiried ynddo. Felly byddai hyn yn cynnwys pobl fel Meddyg Teulu, athro, nyrs, hyfforddwr, gofalwr maeth neu weithiwr cymdeithasol. Byddai hefyd yn cynnwys pobl eraill fel gwirfoddolwr, rhiant sy'n rhedeg tîm pêl-droed neu berson mewn swydd awdurdodol fel swyddog heddlu neu gynghorydd.

Mae pob awdurdod lleol yn cymryd unrhyw bryder a godir am ymarferwyr o ddifrif ac mae ganddynt broses ar waith er mwyn ymchwilio. Nod y daflen hon yw ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych o bosibl am ymarferydd sy'n gweithio gyda'ch plentyn, neu os bydd rhywun arall wedi codi pryderon am ymarferydd.

**Beth fydd yn digwydd os bydd gennyf bryder am ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant?**

Os ydych chi'n poeni am unrhyw un sy'n gweithio gyda'ch plentyn, y peth pwysicaf i'w wneud yw siarad â rhywun heblaw am yr ymarferydd rydych yn pryderu yn ei gylch. Gall fod yn rheolwr ar y person rydych yn pryderu yn ei gylch. Fel arall, os nad ydych yn gyfforddus yn siarad â'i reolwr; neu os nad ydych yn credu y bydd yn gallu gwneud unrhyw beth; neu os oes honiad o gam-drin; gallwch ddewis cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithsol yn uniongyrchol. Fel arall, os ydych yn meddwl bod trosedd wedi'i chyflawni, gallwch gysylltu â'r Heddlu.

**Beth sy'n digwydd pan gaiff honiad ei wneud?**

Bydd y rhan fwyaf o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant yn nodi uwch aelod o staff i arwain ar reoli honiad. Yn aml cyfeirir ato fel person dynodedig (DP). Os bydd eich plentyn yn datgelu honiad o gam-drin wrth aelod o staff, dylai'r person arweiniol neu'r person dynodedig (DP) gael ei hsybysu gan yr aelod staff hwnnw.

Dylai'r person dynodedig gysylltu â Gwasanaethau Plant ar unwaith os honnir bod aelod o staff neu wirfoddolwr wedi:

• Ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn, neu y gallai fod wedi gwneud hynny; neu

• O bosibl wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu mewn perthynas â phlentyn; neu

• Wedi ymddwyn tuag at blentyn, neu blant mewn ffordd sy'n awgrymu ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant.

Yna dylai'r sefydliad roi camau ar waith ar unwaith i gadw plant yn ddiogel tra yr ymchwilir i'r mater. Mae'n bosibl y bydd y camau hyn yn cynnwys na chaiff yr aelod staff weithio ar ei ben ei hun neu weithio'n uniongyrchol gyda phlant. Mae'r camau hyn yn gyfrinachol i'r cyflogai/cyflogwr, felly mae'n bosibl na chânt eu rhannu gyda chi. Felly mae'n bwysig i chi wybod y cymerir camau i ddiogelu plant yn ystod yr ymchwiliad hyd yn oed os nad yw'r rhain yn amlwg ar unwaith. Os bydd gennych bryderon nad yw unrhyw beth yn cael ei wneud dylech chi rannu'r rhain gyda Gwasanaethau Plant.

Gallai camau i ddiogelu plant yn ystod yr ymchwiliad hefyd gynnwys atal dros dro. Nid yw atal dros dro yn golygu bod y person wedi'i gael yn euog, ac mae'n bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau os nad yw'r person yn y gwaith. Edrychwch ar yr adran ar gyfrinachedd ac yn benodol pwysigrwydd peidio â thrafod y sefyllfa'n rhy eang.

Ymchwilir i honiadau. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hyn fod yn ymchwiliad cyflogaeth gan y cyflogwr, ymchwiliad troseddol gan yr heddlu neu ymchwiliad amddiffyn plant gan yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, neu gyfuniad o ymchwiliadau.

**Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd yr ymchwiliad?**

Yn dilyn ymchwiliad, gwneir penderfyniad ar a yw'r honiad wedi'i brofi. Fel rhiant efallai na fyddwch yn cael gwybod y wybodaeth hon oherwydd ei bod yn gyfrinachol i'r cyflogai. Fodd bynnag mae'n bwysig i chi wybod nad yw peidio a gwybod y canlyniad yn golygu nad yw camau yn cael eu cymryd i gadw eich plentyn yn ddiogel.

Mae'r cam nesaf yn dibynnu ar lawer o bethau, gan gynnwys y math o gyflogaeth a difrifoldeb yr ymddygiad. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd yr honiad yn arwain at gollfarn droseddol, neu rybudd, neu bydd y cyflogai yn colli ei swydd. Mewn achosion eraill gall honiad ddigwydd oherwydd naïfrwydd neu arfer gwael ar ran yr aelod o staff. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, mae'n bosibl y bydd yn fwy priodol i'r honiad gael ei reoli'n fewnol gan ei sefydliad, neu i'r aelod o staff neu'r gwirfoddolwr gael hyfforddiant ychwanegol.

Mewn rhai achosion efallai y bydd yn amhosibl dod i gasgliad, ac o dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bosibl y cynigir cyngor i'r cyflogwr ar gamau er mwyn parhau i gadw plant yn ddiogel. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bwysig deall nad yw hyn yn golygu na chredir yr honiad. Gallai olygu bod y person a wnaeth yr honiad wedi camddehongli'r digwyddiad, neu wedi gwneud camsyniad o ran yr hyn a welodd, neu nad oedd yn hollol ymwybodol o'r sefyllfa a'r holl amgylchiadau. Hefyd gall fod, er nad oedd digon o dystiolaeth i ddilyn gweithdrefnau troseddol neu gyflogaeth. Yn yr achosion hyn, caiff y sefyllfa ei monitro a chaiff mesurau diogelu ychwanegol eu rhoi ar waith.

**Cymorth a Chefnogaeth**

Pan wneir honiadau gall fod yn adeg drallodus iawn i chi ac i'ch plentyn, ac mae'n bosibl y bydd angen rhagor o gymorth arnoch. Gall Gwasanaethau Plant drefnu asesiad i adnabod gwasanaethau a all helpu. Gallai hyn fod yn y tymor byr tra yr ymchwilir i'r mater, neu yn y tymor hwy - yn mynd i mewn i ganlyniadau'r digwyddiad.

Cymorth i Rieni/Gofalwyr, Plant, a Phobl Ifanc:

Child Line ar 0800 11 11 (llinell gymorth 24 awr) neu ewch i: www.childline.org.uk

I gael gwybodaeth ar-lein am wasanaethau gwybodaeth, cyngor, cwnsela a chymorth ieuenctid yn lleol ewch i: www.youthaccess.org.uk

Os hoffech siarad â rhywun yn gyfrinachol, gallwch fynd at Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (www.bacp.co.uk) er mwyn dod o hyd i gwnselydd cymwysedig yn eich ardal leol.

Mae Voice UK (www.voiceuk.org.uk) yn cefnogi plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin, yn ogystal â'u teuluoedd.

Mae MOSAC MOSAC - Mothers of Sexually Abused Children (www.MOSAC.net) yn sefydliad sy'n cynnig cymorth a chyngor i rieni a gofalwyr plant/pobl ifanc sydd wedi cael profiad o gam-drin rhywiol, nad ydynt yn cam-drin.

**Sut rydw i'n cael y wybodaeth ddiweddaraf?**

Dylid parchu cyfrinachedd parthed y plentyn neu'r person ifanc a dweud wrth bobl am yr honiad ar sail 'angen gwybod' yn unig.

Bydd y rhai y dywedir wrthynt am yr honiad yn cynnwys:

• Rhieni/gofalwyr y plentyn/person ifanc

• Cyflogwr yr aelod o staff neu wirfoddolwr.

• Y Rheolwr Gwasanaethau Plant Dynodedig (DCSM)

• Uwch aelodau staff (os bydd yn berthnasol)

• Rheolwr yr asiantaeth lleoli (os bydd yn briodol)

Mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd angen i'r Heddlu benderfynu ar yr amseriad priodol i unigolion gael eu hysbysu.

Pan fydd mater yn dod yn wybodaeth gyffredin neu'n destun dyfalu, efallai y bydd angen cyhoeddi datganiad byr i'r cyhoedd.

Cynghorir yn gryf nad yw teuluoedd yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn trafod yr achos yn eang, er mwyn cyfyngu ar ddyfalu diangen.

DRAFT